Newidiadau i ddatgelu a gwahardd: beth sydd arnoch angen ei wybod

HM Government

Beth yw diben y daflen hon?

Mae'r daflen hon yn dweud wrthych am newidiadau pwysig y bydd y Llywodraeth yn eu gwneud i gofnodion troseddol a threfniadau gwahardd **y mis Medi hwn (2012)** a'r modd y byddant yn effeithio arnoch chi.

At bwy y mae wedi ei anelu?

Mae'r daflen hon ar gyfer sefydliadau (**cyflogwyr, cyrff gwirfoddol** ac **elusennau**) sy'n penodi pobl i weithio gyda grwpiau bregus gan gynnwys plant. Mae hwn yn waith y mae'n rhaid i unigolion sydd wedi eu gwahardd beidio â'i wneud (a elwir yn 'weithgaredd a reoleiddir'), neu yn waith y gall y sefydliad gael gwiriad Swyddfa Gofnodion Troseddol (CRB) ar ei gyfer. Bydd hyn yn aml yn golygu cyswllt gyda'r CRB a/neu'r Awdurdod Diogelu Annibynnol (ISA).

Pa newidiadau fyddwn ni'n eu gwneud, a pham?

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ymroddedig i ddiogelu grwpiau bregus gan gynnwys plant. Rydym am weld system ddiogelu sydd yn bendant ei ffocws ac yn effeithiol, lle bydd niwed neu berygl o niwed yn cael eu dynodi, bod gweithredu effeithiol arnynt a'u bod yn cael eu hatal yn y pen draw. Rydym hefyd am weld gwell rhannu ar y cyfrifoldeb am ddiogelu rhwng y wladwriaeth, ar un llaw, a'ch sefydliadau chi, ar y llall. Rydym yn meddwl bod y trefniadau hyd yn hyn wedi rhoi gormod o bwyslais ar ddiogelu gan y wladwriaeth ac nad oeddent yn rhoi digon o bwyslais ar y rôl allweddol yr ydych chi'n ei chwarae.

Mae trefniadau clir, wedi eu rheoli'n dda ar gyfer diogelu yn bwysig, boed mewn ysbyty mawr, ysgol neu mewn elusen leol fechan. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod yr holl staff yn cael eu recriwtio, eu hyfforddi a'u rheoli yn briodol. Mae rheolaeth fanwl, barhaus, o ddydd i ddydd yn allweddol, er mwyn i ymddygiad anarferol neu ymddygiad sy'n peri pryder gael ei weld ar y cyfle cynharaf posibl. Gwnaiff recriwtio diogel, gofalus gyfraniad pwysig. Chi sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu a yw rhywun yn addas ar gyfer y rôl sydd gennych ac wrth wneud hynny mae'n allweddol eich bod yn cymryd camau synhwyrol i ddynodi'r unigolyn iawn - gan gynnwys gwirio tystlythyrau a chynnal cyfweliadau wyneb yn wyneb. Mae hyn i gyd yr un mor bwysig â gwiriad CRB.

Mae gan y wladwriaeth ran allweddol i'w chwarae wrth, er enghraifft, wahardd unigolion anaddas rhag gweithio gyda grwpiau bregus gan gynnwys plant, ac wrth sicrhau bod sefydliadau yn medru cael mynediad at wybodaeth cofnodion troseddol pan fydd y gwaith yn cyfiawnhau hynny.

Rydym yn torri yn ôl ar y systemau cofnodion troseddol a gwahardd i lefelau mwy cymesur gan sicrhau eu bod yn parhau i ddarparu diogeliad effeithiol i'r rhai sydd arnynt ei angen. Mae'r newidiadau i'r systemau yn cael eu cynnwys yn **Neddf Diogelu Rhyddid 2012**, a dderbyniodd y Cydsyniad Brenhinol yn ddiweddar. Nid yw'r newidiadau yn y Ddeddf wedi dod i rym eto – ond bydd rhai ohonynt yn dod i rym ar **10 Medi 2012**. **Hyd hynny, dylech ddal i weithredu fel o'r blaen**. Mae'r daflen hon yn dweud mwy wrthych am y newidiadau fydd yn digwydd ar 10 Medi.

Nid yw popeth yn newid. Bydd yn dal yn ddyletswydd ar eich sefydliad, er enghraifft, i gyfeirio at yr Awdurdod Diogelu Annibynnol, a rhaid i chi beidio ag apwyntio unigolyn sydd wedi ei wahardd i gynnal gweithgaredd a reoleiddir pan fyddwch yn gwybod hynny.

Felly, yn gryno...

Newidiadau mawr ym mis Medi 2012

- Diffiniad newydd o weithgaredd a reoleiddir.
- Diddymu gweithgarwch rheoledig.
- Diddymu cofrestru a monitro parhaus.
- Diddymu gwybodaeth ychwanegol.
- Oedran ieuengaf (16 oed) y gall rhywun wneud cais am wiriad CRB.
- Prawf 'perthnasedd' mwy trylwyr ar gyfer pan fydd yr heddlu yn rhyddhau gwybodaeth a ddelir yn lleol ar wiriad CRB trylwyr.

Ddim yn newid

- Rhaid i chi wneud cyfeiriadau priodol at yr Awdurdod Diogelu Annibynnol.
- Rhaid i chi beidio â phenodi rhywun yr ydych yn gwybod ei fod wedi ei wahardd gan yr Awdurdod Diogelu Annibynnol mewn gweithgaredd a reoleiddir.
- Bydd pawb yn y diffiniad cyn mis Medi o weithgaredd a reoleiddir yn parhau yn gymwys ar gyfer gwiriadau CRB trylwyr, boed yn dod o fewn y diffiniad o weithgaredd a reoleiddir ar ôl mis Medi neu beidio.

Mae'r daflen hon yn ymwneud â **Lloegr a Chymru**. Mae taflen ar wahân ar gyfer Gogledd Iwerddon.

Beth sy'n digwydd ym mis Medi fydd yn effeithio ar fy sefydliad i?

1. Diffiniad newydd o weithgaredd a reoleiddir

Mae Deddf Diogelu Grwpiau Bregus 2006 yn nodi'r gweithgareddau a'r gwaith sy'n 'weithgareddau a reoleiddir', y mae'n rhaid i unigolyn sydd wedi ei wahardd gan yr Awdurdod Diogelu Annibynnol beidio â'i wneud. Rydym yn torri'n ôl ar weithgaredd a reoleiddir i ganolbwyntio ar waith sy'n golygu cyswllt agos heb ei arolygu â grwpiau bregus gan gynnwys plant. Fe fyddai'r diffiniad cyfredol o weithgaredd a reoleiddir, ymhen amser, yn cynnwys dros 9 miliwn o bobl; yn y diffiniad newydd bydd yn nes at 5 miliwn. Bydd y gweithgareddau a'r gwaith sy'n cael eu tynnu allan o'r gweithgaredd a reoleiddir yn dal yn gymwys ar gyfer gwiriadau CRB trylwyr (ond ni fyddant bellach yn gymwys ar gyfer gwiriadau rhestr rhai a waharddwyd).

Mae bod yn glir am y diffiniad o weithgaredd a reoleiddir o bwys oherwydd:

- Bydd sefydliad sy'n gadael i unigolyn a waharddwyd weithio ar weithgaredd a reoleiddir gan wybod hynny yn torri'r gyfraith;
- Os byddwch yn diswyddo neu gael gwared ar rywun o weithgaredd a reoleiddir (neu y byddech wedi gwneud hynny oni bai eu bod wedi gadael yn barod) oherwydd eu bod wedi niweidio neu greu risg o niwed i grwpiau bregus gan gynnwys plant, mae gofyn cyfreithiol arnoch i anfon gwybodaeth ymlaen am yr unigolyn at yr Awdurdod Diogelu Annibynnol. Mae'n drosedd peidio â gwneud hynny. Os credwch fod yr unigolyn wedi cyflawni trosedd, rydym hefyd yn eich cynghori yn gryf i drosglwyddo'r wybodaeth i'r heddlu. Am ragor o wybodaeth am y ddyletswydd i gyfeirio at yr Awdurdod Diogelu Annibynnol, gweler **www.isa.homeoffice.gov.uk**
- O 10 Medi, os byddwch yn ystyried bod rôl yn dod o fewn y diffiniad newydd o weithgaredd a reoleiddir, yna os byddwch yn gofyn i'r unigolyn wneud cais am wiriad CRB trylwyr, dylech ofyn am y gwiriad rhestr o rai a waharddwyd hefyd (ar gyfer plant, oedolion, neu'r ddau). Bydd gwiriadau CRB trylwyr ar gyfer gwaith ar weithgaredd a reoleiddir yn dweud wrthych (pan ofynnir am hynny) os yw'r unigolyn ar y un o'r rhestrau unigolion a waharddwyd gan yr Awdurdod Diogelu Annibynnol. Nid ydynt yn cynnwys y wybodaeth honno yn gyffredinol ar gyfer gwaith tu allan i weithgareddau a reoleiddir.

Rhoddir crynodeb o'r diffiniad newydd o weithgaredd a reoleiddir ar ddiwedd y daflen hon.

2. Diddymu gweithgarwch rheoledig.

Ni fydd y categori gweithgarwch rheoledig yn bodoli bellach. Roedd y categori hwn yn cynnwys pobl a all fod â llai o gyswllt â grwpiau bregus gan gynnwys plant na phobl mewn gweithgaredd a reoleiddir – er enghraifft, rhai pobl sy'n ymdrin â chofnodion. Ar y funud, gallwch wirio a yw'r bobl hynny wedi eu gwahardd; o fis Medi ymlaen, ni fyddwch yn medru gwneud hynny (er y gall pobl yn y swyddi hyn fod yn gymwys o hyd i gael gwiriad CRB, gan ddibynnu ar eu rôl).

3. Diddymu cofrestru a monitro parhaus

Y cynllun gwreiddiol – yn y Cynllun Fetio a Gwahardd – oedd y byddai unrhyw un oedd am weithio gyda grwpiau bregus gan gynnwys plant angen cofrestru gyda'r cynllun a chael ei fonitro yn barhaus am unrhyw wybodaeth cofnodion troseddol newydd. Ni ddaeth hyn fyth i rym ac mae'r Ddeddf Diogelu Rhyddid yn ei ddiddymu. Gallwn yn awr gadarnhau na fydd cofrestru a monitro yn cael eu cyflwyno.

4. Diddymu gwybodaeth ychwanegol

Dan Ddeddf yr Heddlu 1997, gall lluoedd heddlu ddarparu peth 'gwybodaeth ychwanegol' sensitif am ymgeiswyr i sefydliadau yn unig, nid i'r ymgeiswyr eu hunain. Gelwir hyn weithiau yn ddeunydd 'amlen frown' ac fe'i rhoddir ar wahân i unrhyw wiriad CRB. Er na fydd y ddarpariaeth hon ar gael mwyach yn y Ddeddf Heddlu, fe all yr heddlu ddewis defnyddio pwerau cyfraith gyffredin i roi gwybodaeth yn uniongyrchol i gyflogwyr mewn achosion pan fydd angen hynny, er enghraifft i atal troseddau neu niwed i eraill.

5. Lleiafswm oedran ar gyfer gwiriadau CRB

Ni fydd rhywun sydd dan 16 oed yn medru gwneud cais am wiriad CRB bellach. Os ydych yn gweithio i un o gyrff cofrestredig neu ymbarél y CRB, ni fyddwch yn medru llofnodi cais i unrhyw un dan 16 oed.

6. Gwybodaeth yr heddlu yn cael ei dal yn lleol - prawf perthnasedd mwy trylwyr a hawl newydd i adolygu

Ar hyn o bryd, mae'r heddlu yn darparu gwybodaeth sy'n cael ei dal yn lleol ar dystysgrifau CRB trylwyr pan fyddant yn ystyried bod hynny'n berthnasol i'r diben y gofynnwyd am y dystysgrif. Bydd hyn yn parhau, ond bydd yr heddlu yn awr yn gweithredu prawf mwy trylwyr cyn penderfynu a fyddant yn datgelu gwybodaeth. Ar hyn o bryd maent yn cynnwys gwybodaeth os 'gall fod yn berthnasol' ac y dylid ei datgelu. O fis Medi ymlaen, byddant yn ei chynnwys os byddant 'yn credu yn rhesymol ei bod yn berthnasol' ac yn ystyried y dylid ei datgelu.

Yn ychwanegol, os bydd unrhyw ran o'r wybodaeth honno yn cael ei chynnwys ar dystysgrif CRB drylwyr a bod yr ymgeisydd yn credu na ddylai, fe fydd yn awr yn medru gofyn i'r Monitor Annibynnol ei adolygu, a gall y Monitor Annibynnol ofyn i'r CRB gyhoeddi tystysgrif newydd, naill ai heb y wybodaeth honno neu gyda diwygiadau iddi. Dylid annog ymgeiswyr i roi gwybod i chi pan fyddant yn gofyn am adolygiad o'r fath ac i roi'r newyddion diweddaraf i chi am yr hyn sy'n digwydd i'w tystysgrif.

7. Sialensiau i wybodaeth ar dystysgrifau CRB

Ar hyn o bryd, gall ymgeisydd am wiriad CRB sy'n credu bod y wybodaeth sy'n cael ei datgelu ar ei dystysgrif yn anghywir wneud cais i'r CRB am benderfyniad a yw'n gywir neu beidio. Bydd y Ddeddf Diogelu Rhyddid yn caniatáu i bobl heblaw'r ymgeisydd wneud hynny hefyd. (Yn ymarferol, mae hyn wedi digwydd yn aml beth bynnag).

A fydd unrhyw newidiadau yn digwydd ar ôl mis Medi 2012?

Bydd; fe fydd newidiadau ychwanegol. Byddwn yn rhoi rhagor o wybodaeth am y rhain yn nes at yr amser, ond dyma i chi gipolwg ar rai o'r newidiadau allweddol:

Ar ddechrau Rhagfyr 2012

Bydd gwaith y CRB a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol yn cael eu cyfuno yn un Corff Cyhoeddus Anadrannol newydd. Bydd hwn yn cael ei alw yn y **Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)**. Bydd y DBS yn parhau â swyddogaethau'r CRB a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol, felly ni fydd hyn yn golygu newid yn y gwasanaethau yr ydych yn eu derbyn – mae'n golygu y byddant yn cael eu darparu gan un corff yn hytrach na dau. Bydd manylion cyswllt ar gyfer y DBS ar gael maes o law.

Yn gynnar yn 2013

Rydym ar hyn o bryd yn gweithio i ddatblygu a darparu **Gwasanaeth Diweddaru** newydd gyda dyddiad gweithredu arfaethedig yn **gynnar yn 2013**. Bydd y Gwasanaeth Diweddaru yn rhoi cyfle i unigolion (os byddant yn dewis tanysgrifio iddo, a thalu ffi fechan) wneud cais am wiriad cofnod troseddol unwaith ac yna, os bydd arnynt angen gwiriad tebyg eto, i ail ddefnyddio'r dystysgrif sy'n bodoli, gyda'u sefydliad yn gwirio ar-lein i weld ei bod yn dal yn gyfredol. Bydd hyn yn osgoi ceisiadau dro ar ôl tro diangen. Bydd rhagor o wybodaeth ar gael am y gwasanaeth newydd hwn – yn y cyfamser, bydd pethau'n rhedeg fel arfer.

Am ragor o wybodaeth

Swyddfa Gartref: **www.homeoffice.gov.uk/disclosure-and-barring**
CRB: **www.homeoffice.gov.uk/crb**
ISA: **www.isa.homeoffice.gov.uk/**
Cyswllt Busnes: **www.businesslink.gov.uk**
DirectGov: **www.direct.gov.uk**

Neu gallwch anfon e-bost at: **HOSPPUEnquiries@homeoffice.gsi.gov.uk**

Crynodeb o'r diffiniad newydd o weithgaredd a reoleiddir

Rhoddir y diffiniad llawn, cyfreithiol o weithgaredd a reoleiddir yn Atodlen 4 o Ddeddf Diogelu Grwpiau Bregus 2006, fel y'i diwygiwyd (yn arbennig, gan Ddeddf Diogelu Rhyddid 2012).

Mae gweithgaredd a reoleiddir yn dal i eithrio trefniadau teuluol, a threfniadau personol, heb fod yn fasnachol.

1. Gweithgaredd a reoleiddir yn ymwneud â phlant

Mae'r diffiniad newydd o weithgaredd a reoleiddir yn ymwneud â phlant yn cynnwys yn unig:

(i) Gweithgareddau heb eu goruchwylio: addysgu, hyfforddi, rhoi cyfarwyddyd, gofal neu oruchwylio plant, neu roi cyngor/cyfarwyddyd ar les, neu yrru cerbyd ar gyfer plant yn unig;

(ii) Gwaith ar gyfer ystod gyfyng o sefydliadau ('mannau penodol'), gyda chyfle am gyswllt: er enghraifft, ysgolion, cartrefi plant, sefydliadau gofal plant. Nid gwaith gan wirfoddolwyr sy'n cael eu goruchwylio;

Dim ond os bydd yn cael ei wneud yn gyson y mae gwaith dan (i) neu (ii) yn weithgaredd a reoleiddir. Rydym yn darparu cyfarwyddyd statudol am oruchwylio gweithgaredd a fyddai'n weithgaredd a reoleiddir pe na byddai'n cael ei oruchwylio.

(iii) Gofal personol perthnasol, er enghraifft ymolchi neu wisgo; neu ofal iechyd gan weithiwr proffesiynol neu'n cael ei oruchwylio gan weithiwr proffesiynol;

(iv) Gofal plant cofrestredig; a rhieni maeth.

2. Gweithgaredd a reoleiddir yn ymwneud ag oedolion

Nid yw'r diffiniad newydd o weithgaredd a reoleiddir yn ymwneud ag oedolion bellach yn labelu oedolion fel rhai 'bregus'. Yn hytrach mae'r diffiniad yn dynodi'r gweithgareddau sydd, os bydd ar oedolyn eu hangen, yn arwain at i'r oedolyn dan sylw gael ei ystyried yn fregus ar yr adeg benodol honno. Mae hyn yn golygu bod y pwyslais ar y gweithgareddau sy'n ofynnol gan yr oedolyn ac nid ar y lleoliad lle mae'r gweithgaredd yn cael ei dderbyn, nag ar nodweddion personol neu amgylchiadau'r oedolyn sy'n derbyn y gweithgareddau. Nid oes gofyn chwaith, bellach, i'r unigolyn wneud y gweithgareddau nifer benodol o weithiau cyn iddynt fod yn cymryd rhan mewn gweithgaredd a reoleiddir.

Mae chwe chategori o bobl a fydd yn dod o dan y diffiniad newydd hwn o weithgaredd a reoleiddir (fel ag y bydd unrhyw un sy'n darparu rheolaeth neu oruchwyliaeth o ddydd i ddydd ar y bobl hynny). Rhoddir amlinelliad bras o'r categorïau hyn isod. Am ragor o wybodaeth gweler Deddf Diogelu Grwpiau Bregus 2006, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diogelu Rhyddid 2012.

(i) Darparu gofal iechyd
Unrhyw weithiwr iechyd proffesiynol sy'n darparu gofal iechyd i oedolyn, neu unrhyw un sy'n darparu gofal iechyd i oedolyn dan gyfarwyddyd neu oruchwyliaeth gweithiwr iechyd proffesiynol. Gweler Deddf Diogelu Grwpiau Bregus 2006, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diogelu Rhyddid 2012, am ragor o fanylion am yr hyn a olygir wrth weithwyr gofal iechyd a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol.

(ii) Darparu gofal personol
Unrhyw un sy'n:

- rhoi cymorth corfforol i fwyta neu yfed, mynd i'r toiled, ymolchi neu fathio, gwisgo, gofal y geg neu ofal y croen, gwallt neu ewinedd oherwydd oedran, salwch neu anabledd oedolyn;
- annog ac yna yn goruchwylio oedolyn sydd, oherwydd ei oed, salwch neu anabledd, yn methu gwneud y penderfyniad i fwyta neu yfed, mynd i'r toiled, ymolchi neu fathio, gwisgo neu ofalu am ei geg, croen, gwallt neu ewinedd heb gael yr anogaeth neu oruchwyliaeth honno; neu

- sy'n hyfforddi neu roi cyfarwyddiadau neu sy'n cynnig cyngor neu gyfarwyddyd sy'n ymwneud â bwyta neu yfed, mynd i'r toiled, ymolchi neu fathio, gwisgo, gofal y geg neu ofal y croen, gwallt neu ewinedd oherwydd oedran, salwch neu anabledd oedolyn.

(iii) Darparu gwaith cymdeithasol
Darpariaeth gan weithiwr gofal cymdeithasol o waith cymdeithasol sy'n ofynnol yng nghyswllt unrhyw ofal iechyd neu wasanaethau cymdeithasol i oedolyn sy'n gleient neu'n ddarpar gleient.

(iv) Cymorth gydag arian parod, biliau a/neu siopa
Darparu cymorth i oedolyn oherwydd ei oedran, salwch neu anabledd, os yw hynny'n cynnwys rheoli arian yr unigolyn, talu ei filiau neu siopa ar ei ran.

(v) Cymorth wrth gynnal materion yr unigolyn ei hun
Unrhyw un sy'n darparu amrywiol ffurfiau o gymorth wrth gynnal materion yr unigolyn ei hun, er enghraifft trwy gyfrwng pŵer atwrnai parhaus. Gweler Deddf Diogelu Grwpiau Bregus 2006, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diogelu Rhyddid 2012, am ragor o gategorïau nad ydynt wedi eu cynnwys yma.

(vi) Cludo
Unigolyn sy'n cludo oedolyn oherwydd ei oedran, salwch neu anabledd rhwng ei breswylfa a man lle mae wedi derbyn, neu y bydd yn derbyn gofal iechyd, gofal personol neu ofal cymdeithasol; neu rhwng mannau lle mae wedi neu yn mynd i dderbyn gofal, gofal personol neu ofal cymdeithasol. Ni fydd hyn yn cynnwys teulu a ffrindiau neu yrwyr tacsi.

Aiff ein diolch i'r partneriaid canlynol am eu cymorth: Y Swyddfa Cofnodion Troseddol, yr Awdurdod Diogelu Annibynnol, Cynulliad Cymru, y Swyddfa Gartref, yr Adran Iechyd a'r Adran Addysg.

Llywodraeth EM
Mai 2012

© Hawlfraint y Goron 2012

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys logos) yn rhad ac am ddim ar unrhyw fformat neu gyfrwng, dan amodau'r Drwydded Llywodraeth Agored.

I weld y drwydded hon, ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

neu ysgrifennwch at Information Policy Team,
The National Archives, Kew, Llundain TW9 4DU,
neu e-bost:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Dylai unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn gael eu hanfon trwy e-bost at **HOSPPUEnquiries@homeoffice.gsi.gov.uk**

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w lawrlwytho yn
www.official-documents.gov.uk

AC
Mae'r ddogfen hon ar gael ar ein gwefan hefyd yn
www.homeoffice.gov.uk/disclosure-and-barring-leaflet